

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO


08456 000 813

Rhwydwaith Arddangos

Dewisiadau o ran deunyddiau
gwahanol i'w rhoi dan ddefaid

Isadeiledd Gwyrdd

Camau gweithredu allweddol i wneud
y mwyaf o goed a gwrychoedd



Safle Arddangos: Hendre Ifan Goch, Glynogwr, Pen-y-bont ar Ogwr

Swyddog Technegol: Elan Davies

Teitl y Prosiect: Cymharu dewisiadau amrywiol i'w rhoi dan famogiaid cyfeb cyn ŵyna

Cyflwyniad i'r Prosiect:

Gwellt yw'r deunydd sy'n cael ei ddefnyddio amlaf dan famogiaid o hyd. Ond, wrth i'w gostau barhau i gynyddu'n sylweddol ac i'w argaeledd leihau, mae ffermwyr yn troi at ddewisiadau gwahanol. Gall lloriau delltog gynnig ateb i'r problemau hyn; ond rhaid i'r manteision gael eu gwrthbwyso â'r costau cychwynnol.

Bu Rhys a Russell Edwards, Hendre Ifan Goch, yn ymchwilio i'r syniad o osod lloriau delltog yn eu sied ddefaid ers cryn amser, ond gyda phrisiau gwellt ar eu huchaf erioed ar hyn o bryd, fe wnaethant benderfynu mentro yn 2020, gan droi un o'r siediau oedd ganddynt yn sied ddefaid gyda llawr delltog. Er gwaethaf costau sylweddol gosod y llawr delltog, mae'r teulu Edwards yn gobeithio y bydd y buddsoddiad yn talu ar ei ganfed oherwydd yr arbedion a wneir o beidio â gorfod prynu cymaint o wellt.

Amcanion y prosiect:

Prif nod y prosiect hwn oedd dynodi dewisiadau gwahanol posibl a fyddai'n cynnig nodweddion gwell o ran cost effeithiolrwydd ac iechyd a lles anifeiliaid mewn cymhariaeth â deunyddiau traddodiadol fel gwellt. Canolbwyntiodd y prosiect ar effaith gwahanol ddeunyddiau ar ffactorau fel llafur, cloffni, glanweithdra'r famog a llesiant cyffredinol yr anifeiliaid. Aed ati i werthuso cost-effeithiolrwydd pob deunydd hefyd, gyda'r nod o leihau costau cynhyrchu yn y tymor hir.

Beth sydd wedi cael ei wneud?

Cymharwyd y pum dewis gwahanol hyn i'w rhoi dan y mamogiaid:

1. Lloriau delltog
2. Lluch lli (£20 y dunnell wedi ei ddosbarthu)
3. Gwellt gwenith (£100 y dunnell wedi ei ddosbarthu)
4. Gwellt barlys (£100 y dunnell wedi ei ddosbarthu)
5. EnviroBed [gwastraff papur wedi'i sychu] (£186 y dunnell wedi ei ddosbarthu)


Ar ôl sganio, rhannwyd y mamogiaid oedd yn cario tripledi yn bedwar grŵp cyfartal ar gyfer y cynllun treial. Dyrannwyd grwpiau o 14 mamog i gorlannau ar gyfradd stocio o 2.1m² i bob mamog gan roi lluch lli, gwellt gwenith, gwellt barlys a gwastraff papur EnviroBed oddi tanynt. Oherwydd bod y corlannau'n fwy yn y sied llawr delltog, cadwyd 50 o famogiaid ar ddwystr o 0.8m².

Cofnodwyd y wybodaeth ganlynol yn wythnosol am y 6 wythnos cyn iddynt ŵyna:

- Cost y deunydd oddi tanynt (defnyddiwyd ffigyrau cyfredol lleol ar gyfer y gwerthoedd hyn, yn ogystal â chyfrifo'r elw ar y buddsoddiad o osod y llawr delltog)
- Y deunydd a ddefnyddiwyd (tunelli)
- Llafur (oriau gwaith a dreuliwyd yn gofalu am y deunydd bob wythnos)
- Nifer o famogiaid cloff (y nifer o famogiaid cloff a gafodd driniaeth)
- Glanweithdra'r mamogiaid (wedi ei sgorio o 1-5)
- Unrhyw sylwadau eraill (ymddygiad y mamogiaid).


Canlyniadau'r prosiect:

Dim ond wyth o famogiaid a gafodd driniaeth am gloffni dros gyfnod 6 wythnos y treial, gyda phump o'r mamogiaid cloff ar wellt gwenith. Gellir gweld dosbarthiad y mamogiaid cloff yn y siart crwn yn Ffigwr 1.



Ffigwr 1. Enghreifftiau o gloffni dros bum wythnos

Roedd y mamogiaid yn gyffredinol yn lanach ar y lloriau delltog o'u cymharu â'r dewisiadau eraill. Gwelir sgoriau glanweithdra'r holl ddeunyddiau yn y graff yn Ffigwr 2.



Ffigwr 2. Sgoriau glanweithdra pob deunydd dan y mamogiaid

O ran faint o'r deunydd a ddefnyddiwyd, defnyddiwyd 340kg a 420kg o wellt barlys a gwenith yn eu tro dros y cyfnod o 6 wythnos, a defnyddiwyd ychydig dros dunnell o lluch lli. Defnyddiwyd 819kg o EnviroBed dros 5 wythnos (gan iddo ddod i ben cyn diwedd y cynllun treial). Gwelwyd bod y llafur (oriau gwaith) a dreuliwyd yn trin y deunydd yn y corlannau yn eithaf tebyg ar draws y gwellt

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ac i ddarllen adroddiad llawn y prosiect, ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltfermioeinfermydd

gwenith, lluch lli, gwellt barlys ac EnviroBed, gan dreulio cyfartaledd o 30 munud i 1 awr yr wythnos ar y deunydd. Wrth gwrs, nid oedd llafur a'r deunydd a ddefnyddiwyd yn berthnasol gyda'r lloriau delltog.

O ran cost pob deunydd, mae'r canlyniadau canlynol yn dangos gwir bris y deunydd a ddefnyddiwyd yn ystod y treial 6 wythnos. Mae'n cynnwys cyfanswm pris faint a ddefnyddiwyd yn ogystal â cheiniogau'r dydd, i bob mamog (sy'n ein galluogi i gymharu yn uniongyrchol â chost y llawr delltog).


1. **LLWCH LLI** (defnyddiwyd gwerth £21 – 11c y dydd i bob mamog)
2. **GWELLT GWENITH** (defnyddiwyd gwerth £42 – 12c y dydd i bob mamog)
3. **GWELLT BARLYS** (defnyddiwyd gwerth £34 – 11c y dydd i bob mamog)
4. **ENVIROBED** (defnyddiwyd gwerth £155 – 30c y dydd i bob mamog)
5. **LLAWR DELLTOG** (costau'r llawr delltog [ac eithrio llafur a pheiriannau] = £18,000)

Gwarant 10 mlynedd = gan dybio gwerth gweddilliol o £5,000

- Wedi ei ddibrisio dros ddeng mlynedd = £1,300 y flwyddyn
- Cadw 500 mamog am 100 diwrnod = 3c y dydd i bob mamog

25 mlynedd heb unrhyw werth gweddilliol

- Wedi ei ddibrisio dros ddeng mlynedd = £720 y flwyddyn
- Cadw 500 mamog am 100 diwrnod = 1.5c y dydd i bob mamog



Safle Arddangos: Bryn, Aberteifi

Swyddog Technegol: Menna Williams


Teitl y Prosiect: Cyfrifo a lleihau eich ôl troed carbon

Ystadegau'r Fferm:

Maint y tir a'i fath	101 hectar, cleibridd ysgafn tywodlyd
Da byw a chnydau	80 o fuchod magu Glaswelltir, gwenith, ceirch a barlys. Rêp, maip a/neu gël fel porthiant gaeaf

Cyflwyniad i'r prosiect:

Defnyddiodd Huw Jones o'r Bryn y Pecyn Offer Carbon Fferm (Farm Carbon Toolkit) i gyfrifo ôl troed carbon presennol y fferm. Dangosodd y canlyniadau bod y Bryn yn gweithredu fel dalfa garbon. Mae hyn yn golygu bod y fferm yn lleihau faint o CO₂ sydd yn yr aer trwy ei storio yn ei phriddoedd. Mae bron i 83 tonnelli o CO₂ - cyfatebol yn cael ei storio yn flynyddol, sydd bron yn cyfateb i 1 dunnell i bob hectar y flwyddyn.



Graff 1.
Cydbwysedd carbon



Graff 2.
Dadansoddiad
o allyriadau
a storio ar gyfer
y Bryn

Ar ôl cael y wybodaeth hon yr her yw gweithredu arni. Gall pob fferm wella'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd o ran gwella eu hôl troed carbon trwy sicrhau bod y system yn gynhyrchiol a bod y mewnbynnau yn cael eu defnyddio'n effeithlon.

Mae Huw, ers blynyddoedd lawer, wedi bod yn ymdrechu i wella iechyd y pridd ar y Bryn ac mae wedi trin cyn lleied â phosibl ers dros 15 mlynedd ac ychydig iawn o wrtaith neu chwistrellau synthetig y mae'n eu defnyddio. Gall y priddoedd iach yma fod â lefelau cynnwys organig dros 12% sy'n esbonio'r gyfran uchel o storio (87% i gyd) ac oherwydd ei fod wedi dechrau defnyddio pori cylchdro yn ddiweddar bydd hyn yn gwella'r gyfradd o garbon sy'n cael ei storio yn y pridd a biomas yr arwyneb. Wrth symud ymlaen, bydd Huw yn ymgorffori mwy o feillion gwyn a chodlysiau yng ngwndwn y fferm i helpu i leihau'r defnydd o wrtaith ar y fferm, ond hefyd i osgoi allyriadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwrtaith nitrogen.

Un o'r meysydd allweddol i Huw ers iddo ddod yn ffermwr arddangos yw arbediadau yn y fuches fagu. Mae gan Huw fuches effeithlon iawn yn barod gyda ffrwythlondeb buchod rhagorol a'r buchod yn fach ond trwy fonitro parhaus gellir gwneud gwelliannau pellach:

- Mae gwella ffrwythlondeb yn lleihau'r bwlch rhwng lloeau a'r gyfradd gyfnewid, gan leihau'r allyriadau i bob uned o gynnyrch.
- Mae cynyddu'r cynnydd pwysau byw dyddiol yn cynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu, sy'n lleihau allyriadau i bob kilogram o gig a gynhyrchir.
- Mae statws iechyd gwell yn lleihau marwolaethau a'r enghreifftiau o afiechydon gan arwain at lefelau cynhyrchu uwch a chyfradd gyfnewid is.

Mae Huw wedi lleihau'r cyfnod dan do yn y gaeaf ar y Bryn trwy gynyddu'r tymor pori.

Am bob **10 diwrnod o gynnydd** yn y tymor pori mae **gostyngiad o 1.7%** mewn nwyon tŷ gwydr ac mae proffidioldeb yn cynyddu.

Mantais arall o gyfnod byrrach dan do yw'r lleihad mewn allyriadau methan slyri (CH_4) ac ocsid nitrus (N_2O) o storio slyri mewn siediau delltlog. O ran rheoli slyri, gall newid o chwalu yn yr haf i chwalu yn y gwanwyn (oerach, llai o heulwen) a defnyddio dulliau chwalu isel o ran allyriadau leihau allyriadau yn sylweddol.

Gall newid 20% i chwalu yn y gwanwyn leihau nwyon tŷ gwydr o 1.3% tra gall newid i esgid lusgo leihau'r nwyon tŷ gwydr o 0.9%.

Yn gyffredinol, mae gwell cymhareb o allbwn i fewnbwn yn lleihau'r ôl troed carbon ac yn gwella'r gallu i gystadlu yn economaidd. Mae'r penderfyniadau sy'n cael eu cydnabod yn eang i leihau ôl troed carbon trwy wella'r gymhareb allbwn-mewnbwn yn cynnwys:

- Geneteg - i wella cynnydd pwysau dyddiol, ffrwythlondeb ac iechyd
- Sicrhau'r gyfradd loea orau: 1 llo i bob buwch
- Gwella pwysau lloeau wrth eu diddyfnu
- Lleihau oedran yn lloea am y tro cyntaf i 22-26 mis
- Pori gwartheg mewn cylchdro
- Cnydau gorchudd gaeaf
- Cyfnod byr dan do yn y gaeaf
- Chwalu gwrtaith yn y gwanwyn

Mae'r enghreifftiau yma yn canolbwyntio ar gynhyrchu anifeiliaid ond gall y dulliau eraill o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar eich fferm gynnwys:


- Gall **gwrychoedd** fod yn ddalfeydd carbon effeithiol yn ogystal â chefnogi bioamrywiaeth. Gall sefydlu gwrychoedd newydd a'u rheoli yn effeithiol gyfrannu'n sylweddol at leihau nwyon tŷ gwydr
- Mae plannu **coed** ar fferm yn cynnig cysgod, yn ddalfa garbon ac mae'n cynnig manteision ecolegol eraill
- Lleihau ac atal **difrod i'r pridd** a'i gywasgu.

Dysgwch am ffyrdd o gynyddu proffidioldeb eich fferm a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy edrych ar ein adnodd nwyon tŷ gwydr ar-lein yn -

businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/reducing-ghg-emissions



Am ragor o wybodaeth a dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r prosiect yn Bryn, ewch i llyw.cymru/cyswlltfermioeinffermydd



Safle Ffocws: Forest Coalpit, Y Fenni

Swyddog Technegol: Dafydd Owen

Teitl y prosiect: Pa effaith gaiff diet gwahanol ar ansawdd porc?

Cyflwyniad i'r prosiect:

Mae ansawdd porc yn bwysig iawn i Kyle Holford a Lauren Smith, sy'n rhedeg eu cenfaint 20 hwch bwrw perchyll hyd eu gorffen o'u brid eu hunain o foch 'Du Cymreig' (Du Mawr x Duroc) ar borfa a choetir ar eu fferm ym Mannau Brycheiniog. Maent yn cigydda a gwerthu eu cynnyrch yn uniongyrchol i gwsmeriaid mewn blychau porc a hefyd yn cyflenwi bwytaï blaenllaw a chigyddion. Ond, ers i'r pandemig COVID-19 ddechrau, mae eu porc yn cael ei werthu yn bennaf mewn blychau a thrwy gigyddion.

Bydd y prosiect hwn yn dadansoddi a chymharu ansawdd y porc o ddau grŵp: un grŵp yn cael ei fagu ar gyfuniad o borthiant a dwysfwyd ac un arall ar ddwysfwyd yn unig.

Beth fydd yn cael ei wneud:

Bydd cyfanswm o 18 o hesbinychod yn cael eu rhannu'n ddau grŵp, dri mis cyn eu dyddiad lladd.

Bydd mamau'r hesbinychod yn chwiorydd a bydd yr holl hesbinychod o'r un baedd i leihau effaith y tad.

Bydd pob mochyn yn cael ei bwyso yn wythnosol i fonitro'r cynnydd pwysau dyddiol ac i gymharu perfformiad ar ddietau gwahanol. Yn ychwanegol i hyn, bydd faint o laswellt a fwyteir yn cael ei fesur.

Ar ôl eu lladd, bydd hanner lwyn o bob mochyn unigol yn cael ei anfon i'w ddansoddi. Bydd pob sampl a gesglir yn cael

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i [wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltfermioeinffermydd](https://wefan.cyswlltfermio.cymru/cyswlltfermioeinffermydd)

ei labelu a gellir ei olrhain i bob mochyn unigol.

Gan weithio gyda Caroline Mitchell o FQM Global, bydd y prosiect ar y cyd â Menter Moch Cymru yn cynnal asesiadau unigol fydd yn cynnwys:


- Grym pur Warner Bratzler
- EZ-Drip loss
- Sgorio lliw CEILAB
- Sgôr lliw a brithder NPPC (USDA)
- Asesiad NIR (sy'n rhoi gwerth braster, protein, a lleithder ymhlith pethau eraill)

Cynllun Treialu Bwa Bwrw Perchyll

Yn ddiweddar mae Kyle a Lauren wedi prynu 10 bwa bwrw perchyll "Aardvark" newydd. Yn ychwanegol at y prif brosiect, bydd treial yn cael ei gynnal hefyd i gymharu effeithlonrwydd y bwâu plastig newydd gyda'r bwâu dur mwy traddodiadol. Gosodwyd cofnodwyr tymheredd i gofnodi'r tymheredd mewnol ac allanol yn y ddau fath o fwa. Bydd cyfradd farwolaeth y perchyll a'r defnydd o wellt yn cael eu monitro trwy gydol y treial hwn.



Ffigwr 1. Lauren Smith a Kyle Holford



Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) wedi ei lleoli yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil wyddonol i ffermwyr a choedwigwyr.

A all cynyddu'r cyfoeth o rywogaethau o blanhigion mewn glaswelltir gynnal y cynnyrch a gwella storio carbon yn y pridd?

Mae digonedd o drafod am y rôl y gall ffermwyr ei chwarae wrth gynyddu lefelau carbon y pridd a chyfrannu at wasanaethau ecosystemau trwy ddarparu cynefinoedd amrywiol. Mae'r Dr Will Stiles o Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth yn disgrifio sut y gall cynyddu'r nifer o rywogaethau o blanhigion mewn glaswelltir cynhyrchio helpu i gyfrannu at hyn.

Mae cynyddu bioamrywiaeth mewn tir amaethyddol yn her a chyfle mawr i'r diwydiant amaeth, a all gynnig manteision o ran lleihau effaith amgylcheddol a gwella canfyddiad y cyhoedd o amaethyddiaeth.

Ar hyn o bryd mewn systemau glaswelltir, mae gwndwn yn cynnwys 1-3 rhywogaeth yn cael ei sefydlu yn hytrach na'r porfeydd llawn rhywogaethau mwy traddodiadol. Yn nodweddiadol, mae cymunedau glaswelltir llawn rhywogaethau yn cynnwys nifer o rywogaethau o blanhigion gan gynnwys rhywogaethau glaswellt, hesg a pherlysiau, sydd yn eu tro yn cefnogi grwpiau o rywogaethau cysylltiedig mwy amrywiol gan gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn, adar a mamaliaid.

Er bod cadwraeth bioamrywiaeth yn eithriadol o bwysig, rhaid i hyn gael ei dafoli ag anghenion y busnes fferm a gofynion cynhyrchu bwyd i sicrhau diogelwch bwyd. Mae porfeydd llawn rhywogaethau yn gallu cyflawni nifer o fanteision i'r ffermwyr, gan gynnwys llai o fewnbwn o ran deunyddiau drud fel gwrtaith, ac i'r gymdeithas yn ehangach ar ffurf darparu mwy o wasanaethau ecosystem.

Mae hyn yn bosibl oherwydd dangoswyd bod perthynas bositif rhwng cyfraddau cynhyrchiant glaswelltir a'r cyfoeth o rywogaethau. Dangosodd astudiaethau y gall y cynnyrch fod yn uwch mewn glaswelltir llawn rhywogaethau nag mewn rhai prin o rywogaethau, ac y gall yr effaith hwn fod yn ddigonol i atal yr angen am wrtaith. Mae'r cynnydd yn y cynnyrch gyda mwy o amrywiaeth o rywogaethau o ganlyniad i ddylanwad rhannu adnoddau, uwch ben y ddaear ac yn y ddaear, sydd yn caniatáu i'r adnoddau, fel golau neu faetholion, gael eu defnyddio'n well. Gall

hyn ganiatáu i blanhigion ddefnyddio adnoddau na fydd rhywogaeth yn eu hymyl yn gallu eu defnyddio (er enghraifft pan fydd planhigion gyda gwreiddiau gwahanol o ran hyd yn defnyddio maetholion ar lefelau gwahanol yn y pridd) gan leihau effaith y gystadleuaeth.

Mae'r ffaith yma yn bwysig o ran storio carbon. Cyflwynir carbon, ar ffurf deunydd organig, yn bennaf i'r pridd trwy dyfiant gwreiddiau planhigion neu'r deunydd a ddaw allan o wreiddiau. Gall chwalu gwrtaith gynyddu twf planhigion a all gynyddu'r mewnbwn o ddeunydd organig i'r pridd trwy'r peirianwaith hwn, ond gall ychwanegu gwrtaith hefyd gynyddu gweithgarwch organebau microbaidd, a all gyflymu cyfraddau pydru sy'n arwain at golli carbon. Mewn astudiaeth oedd yn ystyried glaswelltir ar draws y gwahanol raddau o ddwystr rheoli, dangoswyd bod gan briddoedd oedd yn cael eu rheoli yn llai dwys gydag amrywiaeth mawr o rywogaethau lawer mwy o garbon na'r rhai oedd yn cael eu rheoli'n ddwys.

Mae'r ffactorau hyn, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn dynodi y gallai cynyddu cyfoeth y rhywogaethau yng nglaswelltir Cymru leihau'r carbon a gollir o'r pridd, gan gynnal y cynnyrch amaethyddol presennol, a lleihau'r gofyn am wrtaith a thrwy hynny gostau rheoli.



Yr Ymgyrch Addewid Hinsawdd

Mae'r ymgyrch Addewid Hinsawdd yn anelu at annog y Llywodraeth, busnesau a chymunedau i weithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i randdeiliaid wneud addewid y byddant yn gweithredu gyda nhw i ymuno â'r ymateb ar y cyd i'r argyfwng hinsawdd. Gallwch wneud addewid fel sefydliad, grŵp neu unigolyn.

Gallwch annog pobl yn eich gweithle neu sector ac yn eich cymuned i ymwneud â'r addewid a dynodi camau y gallwch chi eu cymryd ar y cyd a'r gefnogaeth sydd arnoch ei hangen gan eraill er mwyn eu cyflawni. Gallwch hefyd herio cyrff cyhoeddus, busnesau a sefydliadau cymdeithas sifil eraill i ymrwymo i wneud addewid hefyd.

Nid oes cyfyngiad ar y math o addewidion ac fe'u bwriadwyd fel man cychwyn i ddechrau gweithredu. Bydd yr addewidion yn cael eu cynnwys fel rhan o Gynllun Cyflawni Carbon Isel 2 Llywodraeth Cymru pan fydd yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2021.

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn dros 80 addewid sy'n hadau ar gyfer gweithredu ar gyfer Cynllun Cymru Gyfan ond eu nod yw cyrraedd dros 100 addewid yn 2021. Er mwyn gwneud addewid ewch i www.smartsurvey.co.uk/s/rx0po/

Un ffordd o ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid gan Lywodraeth Cymru yw'r ymgyrch addewidion. Am ragor o fanylion gallwch danysgrifio i'w cylchlythyr trwy'r blwch post **Decarbonisationmailbox@gov.wales**, neu edrychwch ar y Dull Ymgysylltu diweddaraf ar gyfer y Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2, a welir yn llyw.cymru/cynllun-cyflawni-carbon-isel-2-cynllun-ymgysylltu



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

PROFI A THARGEDU CLAFR YN EICH DIADELL

Mae clafr defaid yn afiechyd heintus iawn sy'n achosi colledion difrifol yn economaidd ac o ran lles i'r diwydiant defaid yng Nghymru yn flynyddol. Un mater allweddol wrth geisio tacio'r clafr yw pa mor hawdd yw i'r heintiad symud o ddiadell i ddiadell, oherwydd sialensiau bioddiogelwch, sydd yn achosi pryder neilltuol mewn systemau pori eang/ar yr ucheldir, ac ardaloedd sy'n cael eu cyd-bori. Yr ateb gorau yn y tymor hir i drin y clafr yw cael gwared ar y clefyd o Gymru a gweddill Prydain. Y gobaith gorau sydd gennym o gyflawni hyn yw os bydd ffermwyr yn cydweithio i dacio'r afiechyd.

Mae'r prosiect Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru 'Tacio Clafr' dan arweiniad ffermwyr sy'n ceisio dileu clafr yn yr ardal o gwmpas Talybont a Bont-goch, yng ngogledd Ceredigion, wedi bod yn rhedeg ers dechrau 2019 erbyn hyn.

Mae chwech ar hugain o fusnesau yn yr ardal yn gweithio gyda Milfeddygon Ystwyth ar y prosiect sy'n cynnwys profi gwaed nifer gynrychioliadol o ddefaid o bob grŵp rheoli yn flynyddol. Mae holiadur yn amlygu ffactorau rheoli a risg yn gysylltiedig â chlafr ar ffermydd yn cyd-fynd ag o. Yna mae ffermydd sy'n cael canlyniadau positif yn cael cynnig cyngor ar ddewisiadau triniaeth a samplo dilynol - naill ai crafu'r croen neu samplo gwaed - i gael gwybod a lwyddodd y driniaeth. Seilir llwyddiant y prosiect ar gyfraniad y ffermwyr a rhannu gwybodaeth gyda chymdogion.

Yn anffodus, oherwydd y pandemig Covid-19 daeth y samplo i stop ar gyfer y rhan fwyaf o 2020, ond ail-gychwynnodd y profi yn yr hydref ac mae 11 o ffermydd wedi eu profi hyd at Chwefror 2021. Mae'r canlyniadau cyn belled yn amlygu bod clafr yn dal yn broblem, gyda chwe fferm yn cael canlyniadau positif. Fe wnaeth tair o'r ffermydd hyn gael canlyniad positif mewn un anifail. Mae'n bwysig nodi nad oedd dwy o'r ffermydd yma wedi cofnodi unrhyw arwyddion o glafr, ac ni nodwyd unrhyw arwyddion gweladwy o glafr wrth gymryd y samplau.

Mae hyn yn atgyfnerthu effeithiolrwydd samplo gwaed o ran canfod heintiad yn gynnar mewn diadell, ac na ddylai ffermwyr ddibynnu ar arwyddion gweladwy yn unig. Roedd y ffermydd positif yma yn gallu trin eu diadelloedd yn llawer cynt o ran lledaeniad yr heintiad nag y byddent fel arfer.

Yn ychwanegol at samplo mamogiaid sy'n cael eu dewis ar hap, mae'r prosiect wedi cymryd samplau gwaed o hyrddod dros y gaeaf gan y gallent fod yn 'warchodwyr' clafr, gan roi awgrym defnyddiol o bresenoldeb clafr yn y ddiadell ar ôl troi at yr hwrdd. Bydd y dull hwn yn cael ei adolygu yn ystod 2021, i asesu ei effeithiolrwydd.

Nod y prosiect yw cynnal profion gwaed ar yr holl ffermydd sy'n rhan o'r cynllun yn gynnar yn 2021, ac mae'n parhau i annog y ffermydd cymwys hynny yn ardal Talybont a Bont-goch nad ydyn nhw wedi cymryd rhan cyn belled i ymuno â'r prosiect trwy gysylltu â **Helen Ovens** - helen.ovens@adas.co.uk neu **Dafydd Jones** - vets@ystwythvets.co.uk.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i wefan Cyswllt Ffermio llyw.cymru/cyswlltffermio



Gyda'r tymor bridio yn nesu ar fferm Mountjoy, fe wnaethom holi rhai cwestiynau allweddol i'r ffermwr arddangos Will Hannah am ei bolisi bridio a sut y mae prosiect profi genomig Cyswllt Ffermio wedi dylanwadu ar ei ddewis o deirw.

Sut mae eich buwch ddelfrydol yn edrych a sut mae hi'n perfformio?

"Mae'r ffwch ddelfrydol i mi ar gyfer y fferm hon yn ddwfn yn ei chorff, yn gynhwysfawr ond eto yn fach o ran maint. Mae hyn yn ei galluogi i droi llawer iawn o laswellt ffres a phorthiant yn llaeth. Byddem yn anelu at bwysau llawn dwf o tua 520kg. Friesian Seland Newydd yw'r fuches yn bennaf, gan roi cynnyrch ychydig yn uwch a gwell gwerth i'r lloeau teirw o'u cymharu â buches croes Seland Newydd. Y llynedd, roedd cyfartaledd y fuches ar 6,294 litr a 518kg o solidau llaeth o 1.1 tunnell o ddwysfwyd a 4,770 litr o borthiant. Dyma'r uchaf y mae ein llaeth oddi ar borthiant wedi bod a byddaf yn hapus iawn os gallwn gynnal y cynhyrchiant ar y lefelau yma."

O ble mae geneteg eich buchod mwyaf proffidiol a llwyddiannus wedi dod?

"Ar ôl gosod y buchod yn eu trefn eleni ar sail kgMS/kgLW, mae geneteg ein buchod mwyaf proffidiol yn dod o deirw Seland Newydd a gyflenwyd trwy LIC a CRV yn ddiweddar. Mae'r teirw yma wedi cael eu magu o fuchod sy'n perfformio ar systemau ar sail glaswellt yn debyg i'n un ni. Rydym wedi bod â dylanwad Friesian Prydeinig a Montbeliard yn y gorffennol, ond nid yw'r rhain mor effeithlon, ac felly nid ydynt yn cymharu mor ffafriol ar sail kgMS/kgLW."

Fel rhywun sy'n lloea yn y gwanwyn a ydych yn meddwl bod £SCI (mynegai lloea gwanwyn) yn addas ar gyfer eich anghenion?

"Yn fy mam i, nid yw'r mynegai £SCI yn gweithio gan ei fod yn dueddol o ffafrio anifeiliaid eithaf main, bregus ac mae cryn bwysau ynddo ar anifeiliaid hawdd eu cadw. Nid yw hyn yn

adlewyrchu a fydd merched teirw £SCI uchel yn pori nac yn trosi porthiant yn llwyddiannus. Fel y dywedais, rwyf bob amser yn ceisio magu buchod â chyrff dwfn gyda geneteg wedi ei brofi ar systemau glaswellt felly ni fyddwn yn defnyddio unrhyw un o'r deg uchaf o deirw £SCI sydd ar gael ar hyn o bryd, sy'n bennaf yn deirw Holstein genomig ifanc wedi eu magu yn yr Unol Daleithiau neu o fuchesi Jersey dan do o Ddenmarc."

Beth yw'r nodweddion bridio allweddol yr ydych yn chwilio amdanynt wrth ddewis stoc cyfnewid i'r fuches?

"Rwy'n ceisio magu buwch all gynhyrchu cymaint o laeth â phosibl oddi ar borthiant, glaswellt sy'n cael ei bori yn neilltuol, gan ein bod yn gallu tyfu llawer o laswellt yma yn Sir Benfro. Er mwyn cyflawni hyn, mae traed da yn hanfodol gan ei bod yn ofynnol i'r buchod gerdded hyd at 2km y dydd at y glaswellt. Mae angen pyrsiau taclus a chyfrif celloedd somatig isel hefyd a chyflymder godro da sy'n sicrhau bod buchod yn cynhyrchu llaeth o safon uchel gydag ychydig iawn o ymyrraeth gennym ni."

Er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant gorau oddi ar bori (dyddiau ar laswellt), mae arnom angen ffrwythlondeb da er mwyn i'r buchod loea a mynd yn ôl ar laswellt y gwanwyn yn gyflym mewn bloc tynn. Mae'r gyfradd wag eleni ar 8% ar ôl bloc deuddeng wythnos."

Sut y mae profion genomig wedi bod o fudd i chi?

"Fe wnaethom brofi ein lloeau yn genomig eleni gyda'r nod o fedru dethol y gorau a gwerthu unrhyw beth dros ben nad oedd cweit cystal. Er mwyn profi pa mor dda yr oedd y data genomig yn adlewyrchu'r perfformiad gwirioneddol, fe

wnaethom hefyd brofi ein heffrod cyflo'r llynedd, gan adael i'r canlyniadau gael eu cymharu â'u data cofnodi llaeth eleni. Dangosodd y canlyniadau berthynas glos rhwng y canlyniadau ar gyfer cynhyrchiant a solidau llaeth. Ond dangosodd bod llawer llai o berthynas o ran cyfri celloedd somatig, gan efallai adlewyrchu'r diffyg data celloedd somatig genomig ar gyfer buchesi'n lloea yn y gwanwyn yn gyffredinol."


A fydddech yn ystyried ei bod yn bwysicach cofnodi llaeth gyda gwybodaeth fanwl am y rhieni ac adroddiad genetig ar y fuches cyn mynd i lawr y llwybr profi genomig?

"Os ydych yn ceisio cael data am eich buches, allwch chi ddim curo cofnodi llaeth am berfformiad gwirioneddol y fuches, ac yn neilltuol o ran cyfrif celloedd somatig. Ond, mae'r canlyniadau yr ydym wedi eu cael cyn belled yn awgrymu bod cyfle i'ch buchesi gael syniad da am botensial cynhyrchiant eu heffrod o brawf genynnol yn unig."



Ffigwr 1. Yr heffer R2 sy'n perfformio orau a brofwyd yn genomig ac o'r math y mae Will yn ei ffafrio o'r tarw 'Maire Mint Fire-up' a gynhyrchodd 1.56 kgMS/kgLW yn ystod ei llaethiad cyntaf

Graff 1. Graff yn dangos y berthynas rhwng y Gallu Trosglwyddo A Ragwelir (GPTA) ar gyfer % protein mewn cymhariaeth â % protein cyfartalog llaethiad 305 diwrnod ar gyfer grŵp o heffrod llaethiad cyntaf y rhoddyd prawf genomig iddynt ym Mountjoy.



A YW RHONWELT YN DDEWIS HYFYW I YMESTYN Y TYMOR TYFU MEWN SYSTEMAU PORI UCHELDIR?

Dengys tystiolaeth o'r Ffindir bod ffermwyr wedi dyblu eu cynhyrchiant ar laswelltir mewn saith mlynedd o ganlyniad i newid y math o laswellt a ddefnyddir mewn glaswelltir. Mae ffermwyr y Ffindir yn awr yn dibynnu ar ronwellt a pheiswellt hir, ymhlith rhywogaethau glaswellt a meillion eraill, i gynnal eu buchesi a'u diadelloedd.

Roedd John Yeomans, sy'n ffermio yn Llwyn y Brain, Adfa i'r gogledd o'r Drenewydd, am weld a allai ailadrodd hyn ar ei dir ei hun sy'n codi i 470 metr yn uwch na lefel y môr. Yn 2019, datblygwyd prosiect EIP yng Nghymru i archwilio cynnwys rhonwellt mewn gwndwn mewn ymgais i wella cynhyrchiant glaswelltir a'r defnydd ohono yn ucheldir Cymru.

Heuwyd yr wyth plot treialu ym Mai 2019 gyda'r plotiau yn cynnwys 0, 10, 25, a 40% o ronwellt (dril a'i chwalu) yn y gymysgedd yn ôl pwysau. Canfu asesiadau o'r gwndwn ym Mai 2020 mai rhygwellt oedd yn tra-arglwyddiaethu, gyda phlanhigion rhonwellt ar gyfartaledd yn llai na 10% ar draws yr holl blotiau rhonwellt gwahanol.

Y rhesymau posibl am fethiant y rhonwellt rhag sefydlu'n llwyddiannus mae'n debyg oedd cyfuniad o:

- Pridd gwlyb iawn ar ôl ei sefydlu all fod wedi arwain at weld yr hadau bach yn pydru yn y gwaelod.
- Cystadleuaeth y rhygwellt yn cau'r golau oddi wrth y planhigion rhonwellt ifanc.
- Priddoedd yn cynnwys llawer o ddeunydd organig yn arafu effaith y calch a chwalwyd wrth eu sefydlu.

Fe wnaeth y gwndwn newydd (er ei fod yn brin o ronwellt) berfformio'n anhygoel o dda – gan roi cyflenwad gwerthfawr dros ben o borthiant, yn arbennig trwy gyfnod sych Mai/Mehefin pan oedd y plotiau (10 hectar (ha) i gyd) yn cynnal 600 o famogiaid a'u hŵyn. Mae'r cyflenwad ychwanegol hwn o borthiant a gafwyd o ail-hadu yn arbennig o werthfawr i fferm ucheldir, gan fod y cynnyrch yn wrthgyferbyniad mawr i'r 3.2tDM/ha sy'n cael ei dyfu ar y borfa barhaol hŷn sydd wrth ymyl y plotiau sy'n gweithredu fel plot rheoli'r prosiect.

Teimlid mai ychydig o werth fyddai o fonitro ansawdd y gwndwn yn ofalus a chynhyrchiant yr anifeiliaid gyda gwahaniaethau mor fach yn y cynnwys rhonwellt ar y gwahanol blotiau. Yn Awst 2020, sefydlwyd dau blot newydd gyda mwy o ronwellt yn y gymysgedd hadau.

Mae'r arwyddion cynnar yn dynodi bod y rhonwellt wedi sefydlu yn llwyddiannus ac mae'n elfen gref o'r gwndwn newydd. Gall chwyn (gwlydd yr ieir a glaswellt) greu problemau i'r gwndwn yn 2021 ond gobeithio y bydd rheolaeth ofalus ar y pori yn helpu'r rhonwellt a'r glaswelltau eraill sydd wedi eu hau i gystadlu'n llwyddiannus â'r chwyn yma. Mae tîm y prosiect yn gobeithio y gall y prosiect yn awr ymchwilio i gynnyrch, ansawdd a'r anifeiliaid a gynhyrchir ar y gwndwn gyda rhywogaethau glaswellt gwahanol yn ystod tymor tyfu 2021.

Er mwyn darllen rhagor am y prosiect ewch i: llyw.cymru/cyswlltffermio

A ydych am wella eich sgiliau TGCh?

Sylwer: oherwydd cyfyngiadau Covid 19, mae ein holl hyfforddiant TGCh yn cael ei ddarparu ar-lein ar hyn o bryd gyda chefnogaeth ar y ffôn

Beth bynnag yw lefel eich sgiliau, gall ein hyfforddiant cyfrifiadurol wedi ei ariannu'n llawn eich helpu i...

- ✓ Reoli eich busnes yn fwy effeithlon
- ✓ Lleihau eich gwaith papur
- ✓ Arbed amser ac arian i chi

Sgiliau cyfrifiadurol i ddechreuwr llwyr

- Cwrs y gallwch ei ddilyn gartref, ar gyflymder sy'n addas i chi dros chwe wythnos
- Byddwch yn derbyn set o chwe llyfr gwaith a fydd yn trafod y canlynol: Anfon/derbyn negeseuon e-bost; Microsoft Word; taenlenni Microsoft Excel; Chwilio'r rhyngwrdd; Cyfryngau cymdeithasol a Thaliadau Gwledig Cymru ar-lein.
- Neu gallwch ddewis y pwnc penodol y mae arnoch ei angen o'r uchod

Sgiliau cyfrifiadurol i ddysgwyr canolradd

Bydd yr hyfforddiant hwn yn adeiladu ar y sgiliau cyfrifiadurol a'r wybodaeth sydd gennych yn barod.

Microsoft Excel Canolradd

- Ar yr amod bod gennych sgiliau sylfaenol, gallwch ddysgu pa mor hawdd yw gosod a mewnbynnu data i daenlen Microsoft Excel neu 'lyfr gwaith'.
- Cadw cofnodion cyflym a chywir i reoli busnes a'ch arian, rheoli iechyd anifeiliaid a rheoli tir.

Cefnogaeth un i un

Gallwch gael hyd at bedair awr o gefnogaeth un i un ar-lein neu ar y ffôn gan un o'n tiwtoriaid TGCh arbenigol, ar y lefel y mae arnoch ei hangen. Mae hwn yn gyfle i ganolbwyntio ar unrhyw broblemau neu fylchau yn eich gwybodaeth.

Gweithdai ar-lein TGCh

Dysgwch sut i integreiddio'r dechnoleg TGCh ddiweddaraf yn eich busnes.

Mae'r pynciau yn amrywio o dechnolegau yn ymwneud â da byw i offer marchnata digidol.

Am ragor o wybodaeth am hyfforddiant TGCh, dyddiadau cyrsiau/gweithdai neu i gofrestru eich diddordeb ewch i llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant neu ffoniwch Ganolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**.



CYFNOD YMGEISIO SGILIAU CYSWLLT FFERMIO

Ar agor 9:00 Dydd Llun, 3 Mai hyd 17:00 Dydd Gwener, 25 Mehefin 2021

Mae'r haf bron â chyrraedd o'r diwedd ar ôl un o'r blynyddoedd mwyaf heriol erioed!

A yw hwn yn amser da i ddatblygu sgiliau newydd neu i loywi'r rhai sydd gennych yn barod? A allai hyfforddiant Cyswllt Ffermio eich helpu i weithredu yn fwy effeithlon, yn fwy diogel neu yn fwy proffidiol?



MARGED SIMONS

– ffermwr ifanc, entrepreneur ifanc, ail yng Ngwobrau Dysgwr Ifanc Lantra

Ffeithiau am y fferm deuluol: Mae Marged yn gweithio ar fferm laeth 200 erw ei theulu ger Arberth lle mae'n gyfrifol am fagu lloeau, stoc ifanc a godro 140 o fuchod Friesian bob dydd. Mae'n gobeithio sefydlu menter arallgyfeirio yn ymwneud â cheffylau yn fuan. Mae hi hefyd yn angerddol am ei gwaith gyda LEAF (Cysylltu'r Amgylchedd â Ffermio), mae'n mwynhau ymweld ag ysgolion i ddysgu'r plant o ble mae eu bwyd yn dod.

Cefndir academiaidd/profiad

- BSc Bywydeg, Prifysgol Abertawe

Hyfforddiant Cyswllt Ffermio

- ✓ Defnyddio meddyginiaethau a deunydd milfeddygol yn ddiogel
- ✓ Dyfarniad Lefel 2 Defnyddio pla-leiddiaid yn ddiogel (PA1 a PA6)
- ✓ Cadw llyfrau a TAW
- ✓ Cynllunio a datblygu busnes
- ✓ Marchnata eich busnes

“Mae astudio ‘Defnyddio meddyginiaethau a deunydd milfeddygol yn ddiogel’ wedi rhoi sicrwydd i mi fy mod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau a'm bod yn gwneud popeth a allaf i gynnal iechyd y fuches gan gadw ein defnydd o wrthfotigau ac anthelmintigau cyn ised â phosibl.

“Trwy gwblhau nifer o gyrsiau sy'n ymwneud â busnes rwyf wedi cael sgiliau newydd amhrisiadwy sydd wedi rhoi hyder i mi symud ymlaen gyda'r fenter arallgyfeirio gyda cheffylau newydd.

“Mae pob cwrs yr wyf wedi ei ddilyn wedi ei anelu ar y lefel gywir ac rwyf wedi cael sgiliau busnes a thechnegol ymarferol yr wyf yn eu defnyddio bob dydd.”

DS Darperir holl gyrsiau hyfforddiant gyda rhagofalon COVID-19 mewn lle. Mae opsiynau digidol a chyfunol ar gael ar gyfer nifer o gyrsiau hyfforddiant.

– Un cais fesul cyfnod ymgeisio gan bob unigolyn cofrestredig – Uchafswm o ddau gais fesul cyfnod ymgeisio fesul busnes cofrestredig – Rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sy'n ymgeisio am hyfforddiant am y tro cyntaf



GERALLT HUGHES

– ffermwr ifanc, entrepreneur ifanc, enillydd Gwobrau Dysgwr Ifanc Lantra

Ffeithiau am y fferm deuluol: Fferm biff a defaid 2,500 erw yn Nantlle, Caernarfon sy'n cynnwys dau adeilad trydan dŵr a menter geirw newydd, a sefydlwyd yn ddiweddar gan Gerallt.

Cefndir academiaidd/profiad

- Coleg Glynllifon (Diploma Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth a phrentisiaeth gartref)

Hyfforddiant Cyswllt Ffermio

- ✓ Rhywogaethau glaswelltir (e-ddysgu)
- ✓ Defnyddio dip defaid yn ddiogel
- ✓ Torri coed â llif gadwyn hyd at 380mm
- ✓ Cymorth cyntaf

“Mae'n ddyddiau cynnar, ond ar ôl cael fy ysbrydoli ar ôl clywed am fenter arallgyfeirio hefo ceirw ar fenter biff a defaid fawr yn Seland Newydd, roeddwn yn gwybod y gallai weithio i ni, ar yr amod bod gennyf y sgiliau a'r hyder i'w wneud. Dyna pryd y gwnes i sylweddoli bod gennyf lawer mwy o ddysgu i'w wneud a throi at Cyswllt Ffermio.

“Mae hyfforddiant Cyswllt Ffermio wedi rhoi'r hyder i mi wybod fy mod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau a'm bod yn ymgymryd â thasgau bob dydd mor effeithlon a diogel ag y gallaf, gan roi mwy o fodlonrwydd i mi ac arbed arian i'r busnes.”

Am wybodaeth holl gyrsiau hyfforddi Cyswllt Ffermio a'r Storfa Sgiliau ewch i llw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant



Storfa Sgiliau

...yr adnodd storio data diogel, ar-lein ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol

Storfa Sgiliau yw adnodd storio data ar-lein diogel Cyswllt Ffermio. Mae Gerallt a Marged yn frwd iawn drosto.

“Mae'n gyfleuster ffantastig a gyda'ch holl hyfforddiant Cyswllt Ffermio yn cael ei ddiweddarau i chi, ni allai fod yn haws cadw cofnod o'ch holl lwyddiannau a sgiliau.”

“Gallwch weld a diweddarau eich cymwysterau, sgiliau a data datblygiad proffesiynol mewn un lle diogel ar-lein sy'n ei gwneud yn hawdd i ddynodi unrhyw fylchau yn eich sgiliau ac mae'n ddefnyddiol hefyd os bydd arnoch angen cv.”

Gwneud y mwyaf o werth coed a gwrychoedd i fusnes y fferm

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cyfnod o effaith mawr oherwydd newid hinsawdd, yn benodol gyda chynnydd yn y tymheredd ers diwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au. Er mwyn lliniaru'r bygythiad hwn gwelwyd pwyslais mawr ar yr angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a storio carbon ar ffermydd gyda tharged Llywodraeth Cymru o carbon sero-net erbyn 2050. Er mwyn cyflawni hyn a chyfrannu at dargedau ehangach cymdeithas, mae'r cyfleoedd sydd o'n blaenau i gynyddu gwynwch busnesau fferm gan fanteisio ar fuddion sylweddol yn amgylcheddol ac ariannol, yn eang ac fe fyddant felly. Bydd buddsoddi yn iechyd y pridd a'i reoli, lliniaru llygredd, ansawdd dŵr, lliniaru llifogydd a gwella a chynyddu'r isadeiledd gwyrdd a bioamrywiaeth ar ffermydd yn ffactorau allweddol yn y gallu i ymdopi ag effeithiau eithafol newid hinsawdd a chynyddu gwynwch at y dyfodol i wrthsefyll problemau fel iechyd planhigion, anifeiliaid a phobl a llesiant.

Dylai rheolaeth gynaliadwy ar dir yn ymgorffori cynllunio rheoli ffermydd ystyried edrych ar y fferm yn ei chyfanrwydd ac integreiddio coed, gwrychoedd a choetir fel ased gweithredol a fydd yn cynnig nifer o fanteision, yn amgylcheddol ac economaidd. Yn hanesyddol, mae rheolaeth ar isadeiledd gwyrdd ar ffermydd wedi bod yn ffurf ar amaeth-godwigaeth gyda systemau porfeydd mewn coed a choetir sy'n cael ei bori yn cael eu defnyddio yn draddodiadol i gynhyrchu bwyd.

Bydd integreiddio da byw a choed mewn systemau bugeiliol, meithrin dealltwriaeth a

dynodi gwerth a diben, o fudd i ecosystem naturiol y fferm. Bydd ehangu a gwella gwrychoedd a lleiniau cysgodi i gynnig cysgod yn creu mwy o gynefin i adar ffermydd a'r boblogaeth o famaliaid bychan, a thrwy hynny wella bioamrywiaeth.


Dylai cysylltu cynefinoedd fod yn amcan yn y cyfnod cynllunio ac mae'r cynnydd yn y gorchudd coed ar ffermydd yn creu cyswllt clir rhwng cynhyrchu bwyd a gweithredu atebion ar sail natur. Faint o adar coetir sy'n defnyddio gwlan yn eu nythod? Gall fod yn fantais fach ond mae'n enghraifft o sut y mae manteision cynhyrchu bwyd ac amgylchedd y fferm yn gyd-gysylltiedig a chymhleth o ran bywyd gwyllt a natur ar raddfa ehangach.

Mae ystyried rheolaeth ar derfynau fel elfen ganolog o reoli fferm o ddydd i ddydd yn cynnig manteision sylweddol wrth gefnogi busnes y fferm a darparu budd cyhoeddus. Dylai gwrychoedd addas i'r diben gyda nodweddion cysylltiedig sy'n strwythurol gadarn a chynefin cyfoethog ar hyd ymylon caeau fod yn darged. Gall adfer gwrychoedd a sefydlu rhai newydd a lleiniau cysgodi ynghyd â choed mewn gwrychoedd, gwella cyrsiau dŵr gerllaw i sicrhau diogeliad ar ffurf lleiniau clustogi gyda choed, arwain at rwydwaith sylweddol o isadeiledd gwyrdd. Bydd cynyddu lled, hyd ac ansawdd y rhwydwaith o gynefin sydd hefyd yn cynnig manteision fel cysgod, lles anifeiliaid, bioddiogelwch a thwf porfa, y cyfan yn cyfrannu at gynnydd mewn cynhyrchiant. Gall hyn i gyd gyfrannu'n sylweddol at darged Llywodraeth Cymru ar gyfer plannu coed ac

adeiladu ar yr isadeiledd gwyrdd sy'n bodoli ar ffermydd a gall dynodi darnau o dir ymylol ac anodd, heb eu defnyddio, olygu y gall y gorchudd coed gael ei gynyddu yn gadarnhaol heb atal cynhyrchu bwyd trwy blannu mewn darnau mwy o gaeau.

Cynyddodd y diddordeb cyhoeddus mewn systemau cynhyrchu bwyd a bydd cefnogaeth i amaethyddiaeth yn y dyfodol yn pwysleisio

ar atebion ar sail natur a gweithgareddau a fydd yn cynnal, adfer a gwella bioamrywiaeth, bywyd gwyllt, tirwedd, ansawdd dŵr, iechyd y pridd a storio carbon. Bydd coed ar ffermydd yn chwarae rhan fawr law yn llaw â systemau cynhyrchu bwyd a fydd yn manteisio gan arwain at wella perfformiad amgylcheddol ac economaidd y busnes.



Enghraifft o ddarparu nwyddau cyhoeddus a phreifat y mae seilwaith gwyrdd yn ei ddarparu i gymdeithas yn ehangach mewn tirwedd amaethyddol.

Mae'n bwysig deall y gefnogaeth reoleiddiol ac ariannol sydd ar gael ar gyfer coed, gwrychoedd a choetir wrth gynllunio eich prosiect. Gall Cyswllt Ffermio ddarparu cefnogaeth wedi ei theilwrio i roi cyngor annibynnol, cyfrinachol ac i'r diben wrth gynllunio eich prosiect i gyflawni eich amcanion.

CAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

1. Ystyried plannu coed mewn ardaloedd anodd, nad ydynt yn cael eu defnyddio.
2. A oes rhannau o'ch fferm fyddai'n cael budd o leiniau cysgodi?
3. Diogelwch cyrsiau dŵr trwy greu lleiniau clustogi gyda choed.
4. Cysylltwch â'ch swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol i weld pa gefnogaeth sydd ar gael.

STOPIO'N DDIOGEL SAFE STOP

Cyn gadael y cerbyd neu ganiatáu
i unrhyw un ddod at y peiriant
neu gwblhau gwaith:

Before leaving the vehicle cab or
allowing anyone to approach or
undertake work on the machine:

1. GOSODWCH Y
BRÊC LLAW



1. ENGAGE YOUR
HANDBRAKE

2. RHOWCH Y
RHEOLYDDION
YN NIWTRAL



2. PUT CONTROLS
IN NEUTRAL

3. DIFFODDWCH
YR INJAN



3. SWITCH OFF
YOUR ENGINE

4. TYNNWCH
EICH ALLWEDD
O'R CERBYD



4. REMOVE YOUR
KEY FROM THE
VEHICLE

MAE "STOPIO'N
DDIOGEL"
YN ARBED
BYWYDAU A
BYWOLIAETH

PARTNERIAETH
DIOGELWCH
FFERM CYMRU
/////////
WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP

"SAFE STOP"
SAVES LIVES AND
LIVELIHOODS